

COMISIYNYDD PLANT CYMRU Disgrifiad Swydd

1. Manylion y Swydd
Teitl y Swydd: Swyddog Cyfranogiad
Prif Leoliad: Tŷ Ystumllwynarth, Llansamlet, Abertawe, a bydd gofyn teithio'n rheolaidd ledled Cymru, gan gynnwys aros dros nos.
Yn Adrodd i'r: Pennaeth Ymarfer

2. Prif bwrpas, amcan a chyd-destun y rôl (crynodeb)
<ul style="list-style-type: none">• Cefnogi a chynghori Comisiynydd Plant Cymru ac aelodau o staff yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i wrando, ymgysylltu, ymateb a monitro barn plant a phobl ifanc yng Nghymru.• Gweithio gyda phob aelod o staff i gefnogi eu gwaith gyda phlant a phobl ifanc, yn unol â Strategaeth Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru.• Bod yn gyfrannwr arweiniol wrth weithredu Strategaeth Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru yn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.• Sicrhau cyfranogiad plant a phobl ifanc wrth ddatblygu amcanion strategol a chyfeiriad y sefydliad.• Cyfranogi, naill ai fel rheolwr prosiect neu aelod o brosiect, mewn grwpiau prosiect traws-swyddogaethol o fewn y swyddfa, gan gyfrannu persbectif cyfranogiad, a sicrhau bod lleisiau a barn plant yn cael gwrandawriad, ymateb, ac yn cael eu hymgorffori i ganlyniad y prosiect.
3. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau
<ul style="list-style-type: none">• Cefnogi Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru, er mwyn cyflawni amcan y Comisiynydd, sef ceisio barn plant a phobl ifanc, a'u cynnwys yn uniongyrchol yng ngwaith y sefydliad.▪ Cynnal trosolwg o ymarfer ym maes hawliau a chyfranogiad plant yng nghyd-destun Cymru, gan roi cyngor a briffiadau cefndir i'r Comisiynydd ac aelodau eraill o'r fîm.• Sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau ym maes cyfranogiad a hawliau plant, gan ddadansoddi arfer cyfredol yng Nghymru, rhannu meysydd arfer da, trafod a gweithredu

newidiadau i ymarfer lle bo hynny'n briodol.

- Datblygu dealltwriaeth a rennir o ymarfer cyfranogiad a'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol oddi mewn i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.
- Cefnogi'r sefydliad a'r fîm o staff i gynllunio, datblygu a monitro ystod o gyfleoedd, mewn cysylltiad agos â chydweithwyr ar draws y sefydliad, er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc ledled Cymru a sicrhau bod y safbwyntiau hynny'n dylanwadu ar waith y Swyddfa ac yn cyfrannu ato.
- Creu, rheoli a chynnal cysylltiadau â phlant a phobl ifanc ledled Cymru a chyrrff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan ddatblygu a chynnal cofnodion cywir o'r holl rwydweithiau plant a phobl ifanc sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru, yn unol â blaenoriaeth y Strategaeth Cyfranogiad.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a chynhyrchu adnoddau ac offer priodol o ran oed a gallu, i'w defnyddio gan Swyddogion Comisiynydd Plant Cymru i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sydd ar y cyrsion a/neu sy'n agored i niwed.
- Cyfranogi, naill ai fel rheolwr prosiect neu aelod o'r prosiect, mewn grwpiau prosiect traws-swyddogaethol o fewn y swyddfa, gan gyfrannu persbectif cyfranogiad, a sicrhau bod lleisiau a barn plant yn cael gwrandawriad, ymateb ac yn cael eu hymgorffori i ganlyniad y prosiect.
- Cyfrannu at ddatblygu a gweithredu rhaglen strwythuredig ar gyfer hyfforddi a chynorthwyo Swyddogion Comisiynydd Plant Cymru ym maes sgiliau cyfranogiad, gwaith rhyngweithiol, theori ac ymarfer gwaith grŵp, arfer gwrthwahanïaethol.
- Datblygu dull gweithio sy'n gynnwys arfer adfyfyrïol ac offer gwerthuso er mwyn dangos bod amcanion y Strategaeth Cyfranogiad yn cael eu cyflawni.
- Arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu prosiectau cyfranogiad allweddol penodol, yn unol â'r cynlluniau gwaith Strategol a Blyneddol.
- Nodi materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant y gallai fod angen i Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru weithredu yn eu cylch, a dod â nhw at sylw'r Pennaeth Ymarfer a Chyfranogiad a'r Comisiynydd.
- Meithrin perthnasoedd gwaith cadarn a gweithio mewn partneriaeth, lle bo hynny'n briodol, ag asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol y mae eu gwaith yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd.
- Lle bo hynny'n briodol, cynrychioli Comisiynydd Plant Cymru mewn gweithdai, cynadleddau a seminarau, a mynychu gweithgorau allweddol y Cynulliad a sefydliadau gwirfoddol i arsylwi.
- Rhoi cyflwyniadau, sesiynau hyfforddi neu weithdai i oedolion, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu ar eu rhan, ac i Swyddogion Comisiynydd Plant Cymru.
- Cynorthwyo i ddatblygu a chynhyrchu cyhoeddiadau Comisiynydd Plant Cymru sy'n darparu cyngor yng nghyswllt materion gallu yn ôl oedran, cynhwysiad a hygyrchedd.
- Bod yn gyfrifol am hyrwyddo a gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant a barn plant a phobl ifanc yn barhaus yng ngwaith y swyddfa, gan gynhyrchu dogfennau briffio i'r fîm yn

rheolaidd, a dylanwadu ar waith y swyddfa trwy gyfrannu at gyfarfodydd cyfathrebu, fîm a dyrannu.

- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr mewn cyfarfodydd fîm ar y cyd o ran yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau polisi a dylanwadu ar ddatblygiad polisi cenedlaethol sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.
- Cadw mewn cysylltiad rheolaidd â chydweithwyr ar draws y sefydliad er mwyn cefnogi digwyddiadau cyhoeddusrwydd allanol megis Eisteddfodau, teithiau a sioeau teithiol.
- Cefnogi gwaith gyda phlant a phobl ifanc ar gais ac ar lefel briodol, yn unol â gwerthoedd sefydliadol y Comisiynydd.
- Cefnogi'r broses o greu diwylliant cynhwysol a chefnogol yn y gweithle trwy ddarparu cymorth a chyflawni dyletswyddau yn achlysurol ar ran cydweithwyr ar draws pob swyddogaeth yn ôl y galw.
- Cynnal gwerthoedd Tîm y Comisiynydd a'r ymroddiad i fod yn bencampwr hawliau plant ac i wrando ar blant a'u cynnwys mewn agweddau allweddol ar waith y Comisiynydd.
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill oddi mewn i gwmpas y radd, fel y bydd y Tîm Rheoli neu unrhyw un o'i aelodau yn barnu sy'n angenrheidiol.

4. Manyleb Person

Cyraeddiadau/Cymwysterau

Gradd neu gymhwyster lefel broffesiynol mewn disgyblaeth berthnasol (e.e. addysg, y gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, chwarae, gwaith ieuenctid, cyfiawnder ieuenctid) neu brofiad perthnasol cyfatebol.

Sgiliau

Lefel uchel o sgiliau trefnu neu sgiliau rheoli prosiectau, gyda'r gallu i flaengynllunio a chadw at derfynau amser.

Lefel uchel o lythrennedd, ac yn meddu ar y gallu i gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg gyda phlant a phobl ifanc a'r oedolion sy'n gofalu amdany'n nhw neu'n gweithio gyda nhw, a deall ac ymateb i gyfathrebu ysgrifenedig yn Gymraeg gyda chymorth.

Sgiliau hyfforddi, hwyluso a chyflwyno ardderchog, a thystiolaeth o allu i gyflwyno digwyddiadau a gweithdai a rhoi cyflwyniadau i blant a phobl ifanc, rhanddeiliaid ac aelodau o'r fîm.

Gwybodaeth a phrofiad

Gwybodaeth am CCUHP a deddfwriaeth hawliau plant Cymru a'r hyn sy'n ofynnol i brif-ffrydio hawliau plant i ymarfer pob dydd

Profiad eang a thystiolaeth o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar bob lefel i ddylanwadu ar newid a'i gyflawni ar gyfer plant a phobl ifanc.

Profiad o weithio gyda phlant a/neu bobl ifanc.

Gwybodaeth a phrofiad o theori a methodolegau cyfathrebu a chyfranogiad.

Gwybodaeth a dealltwriaeth o ymarfer sy'n gwrthweithio camwahaniaethu ac ymarfer adfyfyriol.

Nodweddion Personol

Yn ymgorffori agwedd ragweithiol a llawn hunangymhelliad at waith.

Yn gallu dangos tystiolaeth o gyflawni amcanion a chael hyd i atebion arloesol i broblemau.

Yn barod i fod yn hyblyg gyda gwaith a dyletswyddau, ac i ymateb i ofynion newidiol a cheisiadau brys.

Yn ymroddedig i gynrychioli barn plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn.

Yn gallu arddangos agwedd greadigol ac arloesol at ymateb i anghenion cyfathrebu plant a phobl ifanc.

Yn gallu meithrin perthynas waith dda ar bob lefel, yn allanol ac o fewn y sefydliad.